

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi) – eitem 7
	Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Cyllid) – eitem 8
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud)

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 394** (a gynhaliwyd ar 14.01.2016)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 394 a chymeradwywyd y cofnodion gan yr Awdurdod.

Materion yn Codi

Pwynt 5.1.8 – Cynnal oriau'r amserlen

Cadarnhaodd IHJ y bydd DRh yn adrodd yn ôl ym mis Mehefin/Gorffennaf parthed ystyried cydbwysedd cynnal oriau gyda chynnal safon a gwreiddioldeb y gwasanaeth.

Pwynt 4.1.3 – Ail-strwythuro

Esboniodd IHJ ei fod wedi penderfynu gohirio cyhoeddi'r cynlluniau ail-strwythuro i staff tan ganol fis Mawrth. Bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried y cynlluniau ar gyfer gweithredu mewn tri lleoliad yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Bwriedir hefyd i ohirio nifer o'r toriadau o dan y CSR tan ddiwedd

y flwyddyn yn dilyn cyhoeddiad diweddar DCMS parthed ariannu 2016-17.

Pwynt 4.3 – Cynlluniau arbedion

Esboniwyd fod swyddogion wedi ystyried ymhellach nifer o argymhellion a gyflwynwyd i'r Awdurdod er mwyn delio gyda thoriadau'r Adolygiad Gwariant, gan gynnwys darpariaeth y Ffreutur. Penderfynwyd peidio cau'r ffreutur yn yr haf ac ystyried opsiynau ar gyfer cynyddu incwm o'r ddarpariaeth a chodi ar denantiaid am y ddarpariaeth te a choffi. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r ddarpariaeth erbyn haf 2017.

Pwynt 4.6 – Cynllun Darlledu Interim

Adroddwyd fod trafodaethau'n parhau parthed yr opsiwn i gyfleoli gwasanaethau darlledu S4C gyda'r BBC yn Llandaf am gyfnod interim cyn y bydd y ganolfan ddarlledu newydd yng Nghaerdydd wedi ei gwblhau. Gobeithir y bydd modd cyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod yn fuan. Nodwyd y byddai cynllun busnes cynllun darlledu interim yn amodol ar gadarnhau pwerau benthyg S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Pwynt 4.7 – Hyfforddiant

Nodwyd fod trafodaethau'n parhau gyda chynrychiolwyr y sector gynhyrchu er mwyn ceisio sicrhau fod cwmnïau'n paratoi a gweithredu cynlluniau hyfforddiant fel rhan o'r cytundebau cynhyrchu.

Pwynt 5.1.6 – Gwasanaeth HD

Esboniwyd mai'r bwriad gwreiddiol oedd ail-gyflwyno gwasanaeth Manylder Uwch erbyn mis Medi, ond bod ystyriaeth yn cael ei roi i geisio lansio'r gwasanaeth ym mis Mehefin mewn da bryd ar gyfer Pencampwriaeth Ewro 2016.

[Crynodeb: Trafodwyd manteision ac anfanteision ail-gyflwyno HD a'r gofyn am ymgyrch hyrwyddo.]

Penderfynwyd anelu at ail-gyflwyno gwasanaeth HD ar Sky a Freesat mewn pryd ar gyfer Pencampwriaeth Euro 2016.

3. Cofrestr Pwyntiau Gweithredu

Cafwyd trafodaeth am fformat newydd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a nodwyd ei fod yn ddull defnyddiol ar gyfer cadw golwg ar gyflawniad penderfyniadau'r Awdurdod. Penderfynwyd y dylid dileu pwyntiau gweithredu pan fyddant wedi eu cyflawni ac y dylid nodi dyddiad cyflawni ar gyfer pob pwynt os yn berthnasol a chynnwys enwau swyddogion wrth ymyl pwyntiau gweithredu yn y cofnodion.

Nodwyd y bydd y pwyntiau gweithredu'n cynnwys crynodeb o benderfyniadau, ac y bydd modd cynnwys rhagor o fanylder yn y cofnodion. Bydd yn bwysig i sicrhau cysondeb rhwng y crynodeb a'r cofnod llawn.

Nodwyd y bwriad i'r Gofrestr Pwyntiau Gweithredu wedi'i ddiweddarau yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod gael ei gyflwyno i'w drafod yng

nghyfarfod y Bwrdd Strategol a Rheoli yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod.

Cyfeiriwyd at y pwynt gweithredu'n ymwneud â'r defnydd o Saesneg mewn dramâu a nodwyd fod hwn yn fater gweithredol ac y gellid ei ddileu o'r gofrestr.

4. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

- 4.1 Cyfeiriodd at benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i beidio torri grant S4C o DCMS yn 2016-17, gan sicrhau na fydd S4C yn colli £400k yn 2016-17, ac yn ogystal y penderfyniad i gynnal adolygiad annibynnol o S4C yn ystod 2017. Roedd yn falch o benderfyniad ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol, ac yn ogystal y cyhoeddiad parthed adolygiad gan fod S4C wedi bod yn galw am gynnal adolygiad. Roedd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol a gweinidogion ac aelodau eraill i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth i S4C.

Roedd yn awyddus i sicrhau fod yr Awdurdod yn manteisio ar y cyfnod cyn cynnal adolygiad i baratoi achos S4C yn drylwyr. Bydd cyfleoedd yn ystod y misoedd nesaf i ystyried pa bynciau y dylid eu hystyried a sut i baratoi ar eu cyfer.

Nododd fod yr amserlen arfaethedig yn golygu na fydd modd derbyn sicrwydd parthed dyfodol ac ariannu hir dymor S4C yn ystod yr un amserlen ag adolygiad y BBC. Bydd cynnal adolygiad yn 2017 yn creu ansicrwydd o ran trefniadau ariannu ac atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC o dan eu strwythur newydd.

- 4.2 Bydd angen sicrhau fod gofynion S4C o ran deilliannau adolygiad yn glir am bethau uchelgeisiol a phwysig, a dylid sicrhau felly nad yw'r cyfle yn cael ei wastraffu ar faterion lled-weinyddol.

Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd trafod a chytuno ar naratif clir ar gyfer pob elfen o waith S4C a phob maes posibl y bydd yr adolygiad yn ei ystyried gan gynnwys gofynion y gynulleidfa, y strategaeth cynnwys, cynllunio ariannol a llywodraethiant S4C. Nodwyd fod swyddogion yn ystyried meysydd posibl ar gyfer cylch gorchwyl yr adolygiad er mwyn gallu paratoi naratif ac adnabod meysydd lle o bosibl y bydd angen rhagor o waith ymchwil gan S4C.

- 4.3 Nodwyd os yw S4C yn gobeithio derbyn swm yn agos i £74.5m oddi wrth y BBC, mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd y BBC yn awyddus i gael trefniadau atebolrwydd tebyg i ddarpariaethau'r Cytundeb Gweithredu ar gyfer 2017-18. Nodwyd y bydd angen negyddu a chytuno ar drefniadau o'r fath yn y dyfodol agos, ond oherwydd yr adolygiad arfaethedig ni fydd modd i'r trefniadau hyn greu cysail ar gyfer yr hir dymor. Serch hyn y bwriad yw ceisio dod i ddealltwriaeth gyda'r BBC – yn amodol ar nifer o faterion gan gynnwys argymhellion y Papur Gwyn a chynnwys Siartr newydd y BBC ac argymhellion Adolygiad 2017.

Nodwyd fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda swyddogion yr Ymddiriedolaeth yfory er mwyn parhau i drafod egwyddorion y read-across ac opsiynau ar gyfer 2017-18.

- 4.4 Cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau eglurder parthed pwerau benthyc gan nodi fod

y pwerau yn bwysig iawn i gynlluniau busnes y cynlluniau Adleoli a Chytleoli. Esboniwyd fod y cynllun busnes presennol yn nodi'r angen i fenthg oddeutu £10m, ond mae'n debyg y gallai'r swm hwn gynyddu i oddeutu i £13m o ganlyniad i gostau ychwanegol y cynllun interim arfaethedig sydd eto i'w cytuno gyda'r BBC neu ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y cynllun cydleoli gwreiddiol a drafodwyd ac a ddatblygwyd ar y cyd rhwng S4C a'r BBC yn seiliedig ar gynllun busnes lle byddai S4C yn talu rhent blynyddol i'r BBC am y gofod swyddfa a thal blynyddol am y gwasanaethau technegol. Ers hynny, mae'r BBC wedi amrywio'r cynllun i gynnwys taliadau sylweddol ymlaen llaw gan S4C. Mae ariannu'r taliadau hyn wedi arwain at orfod ceisio pwerau benthyg gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Nododd fod bwriad i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn fuan i dynnu sylw at nifer o faterion byr dymor megis ceisio eglurder am bwerau benthyg. Esboniwyd fod y ddeddf yn rhagweld rhoi pwerau benthyg i S4C ond bod gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys nodi uchafswm a manylion y pwerau. Roedd yn awyddus i ddatgysylltu materion megis pwerau benthyg oddi wrth adolygiad 2017 gan fod pwerau benthyg yn fater lled-weinyddol a ddim yn faterion sy'n ymwneud â strategaeth a gweledigaeth hir dymor S4C.

Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd gyflwyno cais ffurfiol i'r Ysgrifennydd Gwladol i gadarnhau pwerau benthyg ar gyfer S4C, gan gynnwys uchafswm benthyg o £13m.

4.5 **Cyfarfod Syr David Clementi**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod a gynhaliodd ef a'r Ysgrifennydd gyda Syr David Clementi i drafod ei adroddiad arfaethedig am lywodraethant y BBC gan nodi ei fod yn gyfarfod cyfeillgar a chadarnhaol.

[Crynodeb: Holodd am strwythurau a threfniadau llywodraethiant S4C. Nododd na fyddai'n cynnwys cyfeiriad at S4C yn ei adroddiad gan ei fod tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Roedd yn deall y pryder am "unintended consequences" posibl i S4C.]

Disgwylir iddo gyhoeddi ei adroddiad yn gynnar ym mis Mawrth, ac yn y cyfamser parheir i drafod 2017-18 a'r 'read-across' hyd 2021/22 gyda'r BBC.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **Adolygu Amcanion Gweithredol 2015**

Cyflwynodd IHJ adolygiad o Amcanion Gweithredol 2015 gan esbonio fod y broses adolygu wedi ei seilio ar drafodaeth ac arweiniad yr Awdurdod ar amcanion 2014.

Cyfeiriwyd yn benodol at yr argymhellion canlynol:

5.2 **Cynllun Llysgenhadon**

Cyfeiriwyd y prosiect llysgenhadon, gan nodi fod nifer y llysgenhadon yn gymharol fach. Nododd IHJ ei fod yn awyddus i ddatblygu'r cynllun yn gyflymach, ond bod diffyg adnoddau dynol yn arafu'r cynllun, gyda dim ond un

swyddog hyrwyddo'n gweithio ar y prosiect. Mae cynlluniau ar y gweill o fewn yr Adran Gyfathrebu i neilltuo rhagor o adnoddau er mwyn datblygu'r prosiect. Cyfeiriwyd at lwyddiant y Sky Academy ac awgrymwyd y dylai GW drafod ymhellach gyda GH.

5.3 **Hyfforddiant**

Cafwyd trafodaeth am rôl a dyletswydd S4C o ran cyfrifoldeb dros hyfforddiant ar gyfer y diwydiant a holwyd oni ddylai'r cwmnïau cynhyrchu ysgwyddo'r baich erbyn hyn? Awgrymwyd wrth i adnoddau ariannol S4C leihau, y dylai prif gyfrifoldeb S4C fel darlledwr cyhoeddus gymryd blaenoriaeth dros ofalu am hyfforddiant y diwydiant. Awgrymwyd hefyd hwyrach nad yw S4C erbyn hyn yn cael cydnabyddiaeth am y buddsoddiad sylweddol a wneir yn flynyddol yn y sector hyfforddiant.

Nodwyd fodd bynnag fod cynlluniau penodol megis sefydlu Cyfle a'r gwaith arloesol a wnaed ganddo o ran hyfforddi technegwyr ifanc i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cyfrannu'n sylweddol at greu seiliau cadarn i'r diwydiant yn nyddiau cynnar S4C.

Holwyd a oedd gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill Megis Skillset ac asiantaethau'r llywodraeth yn lleihau'r budd a daw i S4C ac i'r diwydiant yng Nghymru yn benodol.

Nododd y Cadeirydd ei fod o'r farn ei fod yn briodol i S4C ystyried cwestiynau'n ymwneud a rôl a buddsoddiad S4C ym maes hyfforddiant yn rheolaidd.

Cyfeiriwyd at yr Academi Sgiliau arfaethedig sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a holwyd beth yw asesiad S4C o rôl ac impact posibl y cynllun. Nodwyd yr angen i barhau i ystyried buddiannau'r cynllun ac asesu a allai'r academi greu gwerth ychwanegol neu a oes risg y gallai ddyblygu a chymhlethu'r sector hyfforddiant ymhellach cyn cyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod o ran perthynas S4C gyda'r fenter arfaethedig.

5.4 **Adnabod y Gynulleidfa**

Cyfeiriwyd at y prosiect Adnabod y Gynulleidfa a gynhaliwyd yn 2015 a holwyd sut y bydd canfyddiadau'r prosiect yn dylanwadu ar gynlluniau Cyfathrebu a Chynnwys S4C.

Esboniodd IHJ fod canfyddiadau'r prosiect yn ganolog i waith yr adrannau Cynnwys a Chyfathrebu bellach, gyda'r strategaeth eisoes targedu gwylwyr o dan 35, cartrefi cymysg eu hiaith a'r rhai rhugl sy'n wylwyr achlysurol. Nodwyd fod cyfres gomedi newydd Anita yn esiampl o hyn, sef comedi sefyllfa sy'n cynnwys elfen o ddwyieithrwydd er mwyn ceisio targedu'r cartrefi lle mae'r plant yn siarad Cymraeg a'r rhieni yn ddi-gymraeg.

Nodwyd y gallai fod yn ddeunaw mis nes y bydd holl elfennau o'r strategaeth sy'n ymateb i ganfyddiadau'r prosiect yn cael eu gweld ar y sgrin, ond cadarnhaodd DRh y byddai rhai elfennau i'w gweld cyn hynny.

5.5 **Strategaeth Bartneriaethau S4C**

Cafwyd trafodaeth am strategaeth bartneriaethau S4C, a sut y mae S4C yn monitro perfformiad a llywodraethiant partneriaethau. Esboniodd IHJ fod

cynllun penodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob partneriaeth, gan gynnwys amcanion clir. Nodwyd fod sicrhau gwerth ychwanegol i S4C, creu impact a chynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau S4C yn amcanion pwysig ar gyfer pob partneriaeth strategol.

Nododd y Cadeirydd fod cwestiynau am bwrpas, gwerth ac asesu perfformiad partneriaethau wedi eu nodi ar sawl achlysur gan yr Awdurdod a **phenderfynwyd y dylai swyddogion ystyried mesuryddion addas ar gyfer prif bartneriaethau S4C.**

5.6 Amcanion Masnachol

Cyfeiriwyd at yr amcanion masnachol, a nodwyd y byddai'n fuddiol i'r Awdurdod ystyried ymhellach elfennau strategol yn ymwneud â chynlluniau'r Bwrdd Masnachol yn achlysurol.

Nodwyd nad oedd yr Awdurdod am greu sefyllfa lle byddai'r Awdurdod yn gweithredu fel 'cyfarwyddwyr cysgodol' i'r Bwrdd Masnachol, ond o ystyried cyfrifoldeb trosgynnol yr Awdurdod dros holl weithgareddau S4C roedd yn briodol i sicrhau fod yr Awdurdod, fel unig gyfranddaliwr y cwmnïau masnachol yn gallu craffu a sicrhau priodoldeb buddsoddiadau a strategaeth fuddsoddi a risg y grŵp.

Oherwydd bod yr Awdurdod yn rhoi trwydded brand de facto i'r Bwrdd Masnachol i ddefnyddio brand S4C fe fyddai'n rhesymol i'r Awdurdod ystyried priodoldeb cynlluniau lle gall fod risg i frand S4C.

Cyfeiriwyd ymhellach at sut i ffurfioli'r broses o graffu buddsoddiadau ac elfennau o'r strategaeth o dan adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Masnachol (isod).

5.7 Amcanion Gweithredol 2016-17

Cyflwynodd IHJ Amcanion Gweithredol drafft 2016-17. Esboniodd mai'r bwriad ar gyfer 2016/17 yn dilyn argymhellion yr Awdurdod yw cyflwyno adroddiad hanner blwyddyn ym mis Medi er mwyn rhoi cyfle i'r Awdurdod fonitro perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth am nifer o'r amcanion arfaethedig.

Pryniannau

Cyfeiriwyd at y bwriad i gynyddu'r defnydd o bryniannau o fewn yr amserlen a nodwyd y dylid sicrhau nad yw targed meintiol yn dylanwadu ar yr angen i sicrhau amserlen safonol a gwreiddiol. Esboniwyd fod swyddogion yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys sicrhau fod pryniannau yn gweddu i'r amserlen a lle'n bosibl yn ceisio'u cyflwyno fel rhaglenni gwreiddiol, Cymreig megis cyfres Arctig Gwyllt Iolo.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau nad yw targed meintiol pryniannau yn cael ei gyflawni drwy orddibyniaeth ar raglenni plant. Mae angen i wasanaeth S4C gyflwyno rhaglenni plant gwreiddiol ac nid pryniannau rhyngwladol yn unig er mwyn cyflwyno diwylliant Cymraeg i'r gynulleidfa iau.

5.8 Rhaglenni o ardaloedd penodol

Cafwyd trafodaeth am gomisiynu rhaglenni o ardaloedd penodol, a nodwyd

elfen o bryder y gallai bwriad o'r fath arwain at gwotâu rhanbarthol yn hytrach na chomisiynu syniadau ar sail safon a gwreiddioldeb syniadau. Esboniwyd fod yr amcan penodol yn ymwneud â'r Gogledd Ddwyrain yn ymateb i sylwadau cryf a dderbyniwyd yn noson gwylwyr Yr Wyddgrug, ond bod y polisi comisiynu yn parhau i fod yn seiliedig ar safon a gwreiddioldeb syniadau yn hytrach na chwotâu rhanbarthol.

Yn dilyn y drafodaeth, cymeradwywyd ymestyn y Cytundebau Sefydlogi am 6 mis tan fis Mehefin 2017, gan geisio negydu cytundebau rhag-archebu erbyn diwedd 2016 ac adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Awdurdod.

Esboniwyd fod y gwaith o ddatblygu strwythur staffio ar gyfer gweithio mewn tri lleoliad yn parhau, gyda'r gwaith bellach yn cymryd i ystyriaeth oblygiadau posibl yr Adolygiad Gwariant. Bwriedir cyflwyno'r cynlluniau arfaethedig i'r pwyllgor personél yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror, ac yna i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

6. Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol

Cyflwynodd CB adroddiad llafar yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ddoe a nodwyd y byddai adroddiad ysgrifenedig yn cael ei chyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

[Crynodeb: Cafwyd adroddiad calonogol ar yr incwm o werthiant hysbysebion a nawdd yn ystod 2015. Roedd y rhagolygon yn parhau'n addawol ar gyfer 2016. Rhoddwyd diweddariad ar un neu ddau o'r brosiectau masnachol a nodwyd yr angen i'r Bwrdd benderfynu ar bolisi difidend ar gyfer 2015-16.]

Penderfynwyd y dylid darparu diweddariad unwaith y flwyddyn i'r Awdurdod parthed materion strategol y buddsoddiadau masnachol, gan gynnwys materion yn ymwneud ag enw da a brand S4C.

MATERION CHWARTEROL

7. Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 3 2015/16 (gan gynnwys trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio)

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cynnwys a'r Adroddiad Dadansoddi ar gyfer Chwarter 3 2015/16 gan DRh a CE a chafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am y patrwm ail-ddarlledu o fewn yr amserlen a chyfeiriwyd at y ffaith bod cyfresi craidd yn perfformio'n well yn ddiweddar. Nodwyd yr angen i ffocysu ar ddeall disgwyliadau'r Cymry Cymraeg sy'n peidio dewis gwyllo S4C yn rheolaidd. Cyfeiriwyd hefyd at yr her o ddygymod gydag effaith digwyddiadau megis y Gemau Olympaidd, Jiwbilí 'r Frenhines ac etholiadau yn Chwarter 2 2016-17 ar yr amserlen.]

8. Adroddiad Ariannol Chwarter 3 2015/16

[Crynodeb: Cyflwynodd SW yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Chwarter 3 2015/16. Cyfeiriodd at broffil llif arian y chwarter a'r arbedion ariannol yn ystod y cyfnod. Roedd y proffil yn debyg i'r blynyddoedd cynt.]

9. **Adroddiadau o'r Pwyllgorau**

Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Cynnwys ni chyflwynwyd yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr. Cyflwynir yr Adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

MATERION ERAILL

10. **Adroddiadau Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion newydd wedi eu derbyn ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

11. **Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2016/17**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod yn 2016/17.

Cyfeiriwyd at ddyddiadau yng nghytundeb y Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC a nodwyd fod swyddogion yn parhau i drafod y cynllun rhaglenni gyda'r BBC. Esboniwyd mai'r bwriad yw cyflwyno cynllun ar gyfer 2016-17 ac adolygiad perfformiad 2015-16 i gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys ym mis Mawrth.

Penderfynwyd y dylid adolygu Blaenoriaethau Strategol yr Awdurdod yn flynyddol yn y Diwrnod i Ffwrdd.

12. **Unrhyw Fater Arall**

Nodwyd fod yr Awdurdod yn awyddus i ystyried trefnu cyfarfod o'r Awdurdod yn y Gogledd i gyd-fynd gyda noson gwylwyr Blaenau Ffestiniog.

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 10 Mawrth, 2016